# Polisi ar y Cyfryngau Cymdeithasol

2024

Taflen wybodaeth:

I gael mwy o gyngor, cysylltwch â: Louise Yau

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2024

Dyddiad adolygu arfaethedig: Hydref 2026

**Rheoli fersiwn**

| **Fersiwn y ddogfen** | **Awdur** | **Dyddiad cyhoeddi** | **Newidiadau allweddol** |
|---|---|---|---|
| 1.1 | Louise Yau | Hydref 2024 | Diweddarwyd y polisi hwn i adlewyrchu esblygiad sianeli cyfryngau cymdeithasol a phatrymau defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ar draws cyfrifon personol a phroffesiynol. |

## Cyflwyniad:

Mae'r polisi hwn yn amlinellu ein rheolau a'n disgwyliadau o ran defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn Estyn. Dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'n harweiniad ar y cyfryngau cymdeithasol i staff a'n polisi ar ddefnyddio TG.

Mae llawer ohonom yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn bersonol ac yn broffesiynol bob dydd. Mae amrywiaeth o sianeli ar gael i'n helpu i gadw mewn cysylltiad â'n ffrindiau a'n teulu, diogelu atgofion, a rhannu diweddariadau gyda chymunedau o gwmpas y byd. A ninnau'n sefydliad y llywodraeth, mae'r cyfryngau cymdeithasol yn gadael i ni gysylltu â'n rhanddeiliaid yn fwy uniongyrchol ac anffurfiol nag unrhyw sianel arall. Mae'n gadael i ni gyfathrebu'n fwy effeithlon ac agored, a chyrraedd ein rhanddeiliaid yn y mannau y maent eisoes yn eu defnyddio i ryngweithio ag eraill.

Rydym yn eich annog i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn gyfrifol. Pan fyddwch ar-lein, dylech fod yn barchus tuag at eraill a bod yn glir pwy'r ydych yn ei gynrychioli, p'un ai chi'n bersonol neu os ydych chi'n siarad ar ran sefydliad. Pwy bynnag rydych chi'n ei gynrychioli, mae cod y Gwasanaeth Sifil a'r gwerthoedd ynddo yn eich rhwymo chi, sef: uniondeb, gonestrwydd, gwrthrychedd a didueddrwydd. A ninnau'n weision sifil, mae'n rhaid i ni wasanaethu'r llywodraeth hyd orau ein gallu, mewn ffordd sy'n cynnal didueddrwydd gwleidyddol ac sy'n cyd-fynd â gofynion y cod hwn, ni waeth beth yw ein daliadau gwleidyddol ein hunain.

Y Tîm Cyfathrebu sy'n rhedeg ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol. Ar hyn o bryd, mae gennym gyfrifon ar X, Facebook, YouTube, a LinkedIn.

**Trosolwg o Sianeli Cyfryngau Cymdeithasol corfforaethol Estyn:**

| X | Facebook | Linkedin | Youtube |
|---|---|---|---|
| @EstynHMI | EstynHMI | Estyn | @estynhmi995 |
| @EstynAEF | EstynAEF | | |
| @OwenEvansEstyn | | | |

## I bwy mae’r polisi hwn yn berthnasol?

Mae’r arweiniad hwn yn berthnasol i holl weithwyr Estyn; yn eu hamser gwaith neu bersonol, gan ddefnyddio dyfeisiau gwaith neu ddyfeisiau personol. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr parhaol a gweithwyr dros dro, gweithwyr asiantaeth, secondeion, a staff sydd ar fenthyg o adrannau eraill y llywodraeth.

## Beth yw’r cyfryngau cymdeithasol?

Mae’r cyfryngau cymdeithasol yn derm cyfunol ar gyfer platfformau digidol sy’n caniatáu i ddefnyddwyr rannu cynnwys, gan gynnwys testun, lluniau a fideos. Dyma rai enghreifftiau:

- Facebook
- X
- Whatsapp
- Instagram
- YouTube a Vimeo
- LinkedIn
- Snapchat
- Wikipedia
- Fforymau a byrddau trafod

Mae hyn yn cynnwys unrhyw wasanaethau negeseua sydd wedi’u hintegreiddio i’r platfformau hyn (e.e. Facebook messenger neu negeseuon uniongyrchol (DMs) X).

## Pam mae angen polisi ac arweiniad arnom ni?

Rydym wedi ysgrifennu'r polisi hwn i egluro beth sy'n briodol ai peidio i'n staff pan fyddant yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol; mae'n amlygu'r pethau allweddol i'w cofio ac mae'n egluro ffiniau a phroblemau posibl er mwyn helpu i'n staff ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn gyfrifol.

Nid yw'r cyfryngau cymdeithasol bob amser yn breifat. Gallech feddwl eich bod yn postio rhywbeth i gynulleidfa benodol, ond gall unrhyw un sy'n gweld eich postiadau eu copïo'n hawdd a'u hanfon ymlaen at bobl eraill. Dyma'r achos hefyd ar gyfer negeseuon preifat; mae'n hawdd gwneud ciplun a'i rannu gydag unrhyw un. Pan fyddwch chi'n rhannu rhywbeth ar-lein, rydych yn colli rheolaeth arno; ni all gael ei dynnu'n ôl.

Mae'n bwysig cofio y gall yr hyn rydych chi'n ei wneud ar-lein effeithio ar eich gwaith, enw da'r Gwasanaeth Sifil, Estyn, ein gweithwyr, ein cyflenwyr a rhanddeiliaid eraill, felly meddyliwch cyn postio.

Cyhoeddodd y Llywodraeth 'lawlyfr ar gyfryngau cymdeithasol' sy'n disgrifio sut mae gwasanaeth digidol y llywodraeth yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Mae ein polisi a'n harweiniad yn cefnogi, yn egluro ac yn ehangu ar yr arweiniad hwn ac yn darparu fframwaith i weithwyr deimlo bod ganddynt y grym i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn gyfrifol.

**Mae prif swyddogaethau sianeli cyfryngau cymdeithasol Estyn yn cynnwys:**

1. Gwella dealltwriaeth rhanddeiliaid a'r cyhoedd o weithgareddau'r sefydliad trwy fentrau cyfathrebu addysgiadol.

2. Rhannu amrywiol fathau o gynnwys sydd wedi'i greu gennym ni gan gynnwys, ymhlith eraill, adroddiadau thematig, arferion effeithiol, blogiau, graffigwaith, fideos a phodlediadau.

3. Hyrwyddo ymgyrchoedd sy'n mynd rhagddynt.

4. Darparu ymatebion amserol i ymholiadau.

5. Cyfeirio traffig i'n gwefan.

**Cyfrifoldeb:**

Dylech gymhwyso'r un rheolau pan fyddwch chi'n rhyngweithio â phobl ar-lein ag y byddech yn gyhoeddus neu gyda'ch cydweithwyr; er enghraifft rhoi rhywbeth ar hysbysfwrdd yn y gwaith, siarad â'ch ffrindiau neu eich cydweithwyr mewn man cyhoeddus, neu siarad â newyddiadurwr. Cofiwch y gall defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ei gwneud hi'n anodd tynnu postiad yn ôl.

Chi sy'n gyfrifol am bopeth rydych chi'n ei bostio ar-lein, p'un a ydych yn defnyddio'ch enw eich hun neu lysenw.  Mae hyn yn cynnwys unrhyw beth rydych chi'n dewis ei rannu ar eich cyfryngau cymdeithasol chi a wnaed gan bobl eraill.  Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen ac yn dilyn Termau Defnyddio neu Reolau Defnyddio'r platfformau cyfryngau cymdeithasol rydych chi'n eu defnyddio.

**Rolau:**

Y Rheolwr Cyfathrebiadau Digidol sy'n gyfrifol am reoli ein platfformau cyfryngau cymdeithasol corfforaethol, a chaiff gefnogaeth gan y Swyddog Ymgyrchoedd a Chynnwys ar gyfer graffigwaith, delweddau, fideos a darnau o bodlediadau.

Er mwyn addasu i natur ddynamig cyfathrebiadau digidol, gall Estyn geisio cymorth gan asiantaethau Cysylltiadau Cyhoeddus (PR) allanol. Mae'r asiantaethau hyn yn cynorthwyo â chreu cynnwys, dylunio graffig a chaffael delweddau o dan oruchwyliaeth Estyn, gan gadw at brotocolau sefydledig.

Mae mentrau'r cyfryngau cymdeithasol yn cael eu hadolygu a'u trafod yn rheolaidd o fewn y tîm cyfathrebu. Mae perthynas gadarn rhwng Estyn ac asiantaethau allanol hefyd i sicrhau cysondeb.

**Preifatrwydd:**

Ni ddylai sianeli cyfryngau cymdeithasol a phlatfformau cyfathrebu mewnol Estyn gael eu defnyddio i rannu gwybodaeth bersonol fel cyfeiriadau e-bost neu rifau ffôn mewn postiadau cyhoeddus. Rhaid cymryd camau rhagofalus ychwanegol wrth ddelio â phostiadau'n ymwneud â phlant, yn enwedig mewn

digwyddiadau cyhoeddus lle gellir tynnu ffotograffau o blant i amlygu gweithgareddau ar stondin Estyn. Caniateir rhannu ffotograffau o blant o dan 16 oed ar y cyfryngau cymdeithasol dim ond:

- Os ceir cydsyniad ysgrifenedig gan riant neu warcheidwad y plentyn, neu
- Os yw ysgol neu sefydliad perthnasol sy'n goruchwylio'r plentyn wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig yn caniatáu am gynnwys y plentyn mewn postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol.

**Monitro:**

Mae monitro'r cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol yn hollbwysig i gynnal cydymffurfiad, rheoli enw da a mynd i'r afael â risgiau. Bydd tîm cyfathrebu Estyn yn monitro sianeli cyfryngau cymdeithasol swyddogol yn gyson o ran ymgysylltiad ac adborth. Mae Estyn yn defnyddio meddalwedd monitro Sprout social i olrhain cyfeiriadau atom ar y cyfryngau cymdeithasol ac mae'r tîm cyfathrebu yn amlygu sgyrsiau ar-lein gyda'r uwch dîm rheoli yn rheolaidd. Rydym ni'n defnyddio Meltwater i olrhain cyfeiriadau atom yn y cyfryngau ac i ddadansoddi data yn effeithlon. Bydd Estyn yn nodi ac yn mynd i'r afael â risgiau neu argyfyngau posibl, fel camwybodaeth neu farn negyddol, yn wyliadwrus.

## Sianeli Cyfryngau Cymdeithasol Personol

**Ailrannu:**

Rydym yn annog staff i amlygu negeseuon corfforaethol mewn modd proffesiynol trwy eu cyfrifon i helpu'r tîm cyfathrebu i godi ymwybyddiaeth o'n gwaith. X a LinkedIn yw'r sianeli proffesiynol y byddem yn annog staff i'w defnyddio i ailrannu cynnwys corfforaethol. Trwy rannu neu hoffi ein postiadau, rydych yn helpu i ehangu ein cynulleidfa.

**Enw da'r brand a defnyddio Ymwadiadau:**

Gall cydweithwyr Estyn ddewis rhannu gwybodaeth am eu gwaith neu eu diddordebau personol ar eu sianeli cyfryngau cymdeithasol personol. Os bydd cysylltiad ag Estyn yn amlwg o broffiliau neu bostiadau staff, dylent gynnwys ymwadiad sy'n datgan nad yw eu safbwyntiau ac unrhyw negeseuon sy'n cael eu hailbostio yn cynrychioli safbwyntiau neu werthoedd Estyn, o reidrwydd. Mae'r cam rhagofalus hwn yn helpu i amddiffyn uniondeb y sefydliad rhag ofn y bydd aelodau staff yn rhannu cynnwys amhriodol neu niweidiol yn esgeulus neu'n fwriadol.

Hyd yn oed gyda phresenoldeb yr ymwadiad hwn, rhaid i gydweithwyr Estyn gymryd gofal gyda'u postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol, gan na all yr ymwadiad yn unig amddiffyn yn llawn rhag niwed posibl i enw da'r sefydliad. Gallai unrhyw gynnwys a allai niweidio enw da Estyn, fod yn destun camau disgyblu. Dylech ystyried p'un a yw unrhyw bostiadau rydych chi'n eu gwneud yn bersonol yn cyd-fynd â'ch cyfrifoldebau o dan god y gwasanaeth sifil.

**Rheoli gwrthdaro buddiannau posibl:**

Mae ein Polisi ar Reoli Gwrthdaro Buddiannau Posibl yn Estyn yn rhoi arweiniad ar ymgysylltu gwleidyddol personol, a dylai cydweithwyr ymgyfarwyddo ag ef. Dylent ystyried p'un a ellid amgyffred bod unrhyw sylwadau neu bostiadau y maent yn bwriadu eu gwneud yn rhai gwleidyddol neu ddadleuol. Mae'n rhaid i gydweithwyr geisio cymeradwyaeth ar gyfer rhai gweithgareddau gwleidyddol a dylent droi at y Pennaeth Cyfathrebu am gyngor penodol cyn rhannu barn ar y cyfryngau cymdeithasol yn gysylltiedig â materion gwleidyddol.

A ninnau'n weision sifil, mae'n rhaid i ni gynnal niwtraliaeth wleidyddol a dylai cydweithwyr osgoi postio, hoffi neu rannu unrhyw beth yn bersonol a allai ddwyn anfri ar y sefydliad, eu hunain neu eu cydweithwyr.

Caiff staff Estyn eu gwahardd rhag datgelu gwybodaeth ariannol, weithredol, strategol neu gyfreithiol am Estyn ar unrhyw adeg. Ni ddylai unrhyw negeseuon personol a ysgrifennir gan staff ar eu sianeli cyfryngau cymdeithasol:

- Adlewyrchu'n negyddol ar enw da Estyn.

- Datgelu gwybodaeth gyfrinachol.
- Cymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch y gellid amgyffred ei fod yn wahaniaethu neu'n annog ymddygiad anghyfreithlon.

## Risgiau

Cynghorir bod cydweithwyr Estyn yn cymryd gofal wrth bostio ar eu rhwydweithiau cymdeithasol personol. Os byddant yn rhagweld y gall diweddariad neu neges arwain at gwynion, tramgwydd, neu fod yn amhriodol fel arall, gorau oll fyddai peidio â'i phostio. Os oes amheuaeth, osgoi postio yn gyfan gwbl sydd orau.

Mae gan gynnwys sy'n cael ei rannu ar blatfformau'r cyfryngau cymdeithasol risg bosibl atebolrwydd cyfreithiol i'r awdur, yn deillio o dorri amrywiol gyfreithiau yn ddamweiniol neu'n fwriadol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Ddifenwi
- Postio deunydd anllad neu gableddus
- Diogelu plant
- Rheoliadau diogelu data
- Cyfreithiau gwrthwahaniaethu ac aflonyddu, deddfwriaeth hawliau dynol
- Cyfathrebiadau masnachol digroeso
- Cyfreithiau hawlfraint, dyluniadau, patentau, diogelu data a phreifatrwydd
- Troseddau'n gysylltiedig â chyfrifiaduron, fel y maent wedi'u hamlinellu yn y Ddeddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron a'r Deddfau Telathrebu
- Rheoliadau'n gysylltiedig â Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio
- Troseddau nodau masnach.

Mae'n bwysig cofio y gall unrhyw beth sy'n cael ei bostio ar-lein fod yn hygyrch yn barhaol a, gallai gael ei ailgyhoeddi mewn cyfryngau eraill. Felly, mae arfer disgresiwn a chadw at safonau cyfreithiol a moesegol yn hanfodol wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau ar-lein.

**Sgyrsiau Grŵp**

Ni ddylech ddefnyddio sgyrsiau grŵp personol, fel Whatsapp, at ddibenion cyfathrebu busnes. Dim ond Microsoft Teams ddylai gael ei ddefnyddio ar gyfer negeseua gwib.

Ni ddylai sgyrsiau grŵp personol gael eu defnyddio ar gyfer trafodaethau'n gysylltiedig â gwaith. Er ein bod yn deall y gall cydweithwyr greu sgyrsiau grŵp personol at ddiben rhyngweithio cymdeithasol, mae'n bwysig gwneud hynny'n barchus. Dylai'r cyfranogwyr gofio y gall unrhyw safbwyntiau neu ddelweddau a rennir yn y sgyrsiau grŵp hyn gael eu dosbarthu o fewn y gweithle. Os bydd cydweithwyr yn digio o achos unrhyw gynnwys a rennir, gallai arwain at gwynion, achwyniadau neu broblemau urddas yn y gwaith.

Dylid tynnu sylw unrhyw bryderon am weithgarwch sgyrsiau grŵp personol i sylw'r Pennaeth Pobl.

**Cyfyngiadau cyn etholiad:**

Mae Cod y Gwasanaeth Sifil yn berthnasol o hyd yn ystod cyfnodau cyn etholiad ac mae hyn yn ymestyn i unrhyw weithgarwch ar gyfryngau cymdeithasol. O dan y Cod, mae'n rhaid i weision sifil gadw at ddwy egwyddor sylfaenol bob amser:

(i) bod yn ddiduedd yn wleidyddol, a chael eu gweld yn bod yn ddiduedd yn wleidyddol;

(ii) sicrhau nad yw adnoddau cyhoeddus yn cael eu defnyddio at ddibenion gwleidyddol

Dylai staff gyfeirio at arweiniad cyn etholiad Estyn i staff i gael manylion pellach am weithgarwch cyfyngedig.

Mae aelodau staff ar Raddau 6 a 7 dan gyfyngiad gwleidyddol a dylent fod yn ymwybodol o fynegi barn ar y

cyfryngau cymdeithasol. Mae gweithwyr o fewn y categori cyfyngedig yn wleidyddol hwn wedi'u hatal rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau gwleidyddol cenedlaethol. Rhaid iddynt geisio caniatâd PAEF i gymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau gwleidyddol lleol a chydymffurfio ag unrhyw amodau sy'n cael eu gosod gan Estyn ynghylch cymryd rhan mewn gweithgareddau lleol o'r fath.

Mae croeso i weithwyr nad ydynt yn destun cyfyngiadau gwleidyddol gymryd rhan mewn gweithgareddau gwleidyddol, ond rhaid iddynt gadw at y rheolau sy'n berthnasol i bob gweithiwr, sydd wedi'u hamlinellu ar dudalen 8 ein harweiniad i staff.